Ysgol Tryfan

29/04/15

Annwyl Riant/Warcheidwad

Parthed: Adolygu ac Arholiadau Tymor yr Haf 2015

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gysylltu gyda chi fel rhieni blwyddyn 11. Mae'r tymor yma, fel y gwyddoch, yn dymor pwysig iawn i'ch plentyn ac felly hoffwn atgyfnerthu'r neges glir fod Ysgol Tryfan yma i gefnogi ei disgyblion yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn.

Bydd yr arholiadau TGAU ffurfiol yn y Neuadd yn cychwyn ddydd Gwener nesaf, 8fed o Fai. Mae amserlen yr arholiadau gan bob disgybl wrth reswm – ond os yw eich plentyn wedi colli'r amserlen yna dylai ofyn am gopi o'r newydd gan Mr Dyfrig Jones, y dirprwy bennaeth. Bydd copi o amserlen gyfansawdd TGAU disgyblion blwyddyn 11 ar wefan yr ysgol hefyd fel y gallwch ei gwirio neu ei hargraffu yn ôl yr angen. Bydd yr amserlen yma ar gael hefyd trwy gyfrif Twitter yr ysgol. Ond eto wedi dweud hyn mae'n bwysig fod pob disgybl yn dilyn ei amserlen bersonol unigol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch.

Disgwylir i ddisgyblion blwyddyn 11 fod yn yr ysgol bob dydd am weddill yr hanner tymor hwn. Bydd gwersi a chefnogaeth arferol ar gael i ddisgyblion blwyddyn 11 pan na fydd ganddynt arholiadau a bydd y ddarpariaeth honno'n parhau hyd at ddydd Gwener Mai 22ain. Bydd rhai pynciau yn trefnu sesiynau adolygu pwrpasol ac ychwanegol cyn eu harholiadau pynciol.

Bwriadwn wedyn gynnal seremoni ymadael swyddogol ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 ar brynhawn Gwener diwethaf yr hanner tymor, Mai 22ain, yn Neuadd yr ysgol. Yna'n dilyn gwyliau'r Sulgwyn nid oes rheidrwydd ar ddisgyblion blwyddyn 11 i ddychwelyd i'w gwersi - dim ond mynychu'r ysgol ar gyfer arholiadau. Ond wedi dweud hyn bydd croeso i'r holl ddisgyblion ddod i'r ysgol i dderbyn cymorth ac arweiniad eu hathrawon unrhyw dro yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan Ysgol Tryfan - www.ysgoltryfan.org - ar y dudalen flaen ac yn yr adran Rhieni < Llythyrau i Rieni. Yn ogystal â'r llythyr bydd rhai adnoddau eraill yno hefyd sy'n berthnasol i flwyddyn 11. Ceir cyflwyniad syml yn trafod rhai pryderon gyda rhieni a cheir dwy ddogfen arall yn cynnig arweiniad i ddisgyblion wrth baratoi am arholiadau. Gellir hefyd droi at ddeunyddiau adolygu arlein megis Bitesize y BBC.

Cofiwch fod croeso i chi gysylltu â'r ysgol am ragor o wybodaeth os nad yw'r wybodaeth uchod yn eglur i chi. Fel arall hoffwn ddymuno'n dda i bob un ohonoch a phob hwyl i'n disgyblion wrth iddynt baratoi am y cyfnod prysur nesaf hwn.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

Ysgol Tryfan

29/04/15

Dear Parent / Guardian

Re: Summer Term 2015 Revision and Examinations

I would like to take this opportunity to get in touch with you as parents of year 11 pupils. As you know this term is very important for your child and therefore I would like to reinforce the message that Ysgol Tryfan is here to support all its pupils during this crucial period.

The formal GCSE examinations in the school hall start next Friday, May 8th. All pupils will have received their examination timetable by now of course - but if your child has mislaid the timetable then he/she should request a new copy from Mr Dyfrig Jones, the deputy head. A copy of the general Year 11 GCSE timetable is on the school's website so that you can check it or print it out as necessary. This timetable will also be available through the school's Twitter account. Yet having said this it is important that all pupils follow his/her personal individual timetable to ensure that there is no confusion.

Year 11 pupils are expected to be at school every day for the rest of this half-term. Lessons will be held as usual to support year 11 when they do not have exams and that provision will continue until Friday, May 22nd. Some subjects will organise additional revision sessions before particular examinations.

We intend to hold an official leaving ceremony for year 11 pupils on the last Friday afternoon before half term, May 22, in the school hall. Then following the Whitsun holidays they are not compelled to return to their lessons but only attend school for exams. But having said this, all pupils may return to school to receive the support and guidance of their teachers at any time during this period.

This letter will be placed on the website of Ysgol Tryfan - www.ysgoltryfan.org - on the front page and in the section for Parents < Letters to Parents. In addition to this letter there are also some other resources relevant to year 11. There is a simple presentation for parents discussing some general concerns during examination time, and there are two other documents offering guidance to pupils in preparing for exams. Pupils can also turn to online materials such as BBC Bitesize.

Please feel free to contact the school for further support if the information above is not clear to you. Otherwise I wish you all, as pupils and parents, the very best during this busy period.

Yours truly

Gwyn Tudur
Headteacher

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur